

GWYBODAETH ESBONIADOL I'W DARPARU GYDA BILIAU'R DRETH



Nodiadau esboniadol

Mae'r wybodaeth a roddir isod yn esbonio rhai o'r termau a gaiff eu defnyddio efallai ar fil treth annomestig ac yn y wybodaeth ategol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am atebolrwydd am ardrethi annomestig oddi wrth awdurdodau bilio.

Ardrethi annomestig

Caiff yr ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio eu talu i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chomisiynwyr yr heddlu a throsedd. Mae eich cyngor a chomisiynydd yr heddlu a throsedd yn defnyddio eu cyfran o'r incwm o ardrethi a ailddosberthir, ynghyd ag incwm gan drethdalwyr eu cyngor, y grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y system ardrethi annomestig, gan gynnwys pa gymorth sydd ar gael drwy <https://businesswales.gov.wales>

Gwerth ardrethol

Caiff gwerth ardrethol eiddo annomestig ei bennu yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n Asiantaeth Weithredol dan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC). Maent yn llunio ac yn cadw rhestr lawn o werthoedd ardrethol pob eiddo annomestig yng Nghymru ac mae hon ar gael ar eu gwefan yn www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency.

Caiff pob eiddo annomestig ei ailbrisio bob 5 mlynedd fel arfer. O 1 Ebrill 2017 mae gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei werth rhentu blynyddol yn y farchnad agored ar 1 Ebrill 2015. Ar gyfer eiddo cyfansawdd, sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae a wnelo'r gwerth ardrethol â'r rhan annomestig yn unig. Dangosir gwerth pob eiddo, y mae treth yn daladwy arno i'ch awdurdod, yn y rhestr ardrethi leol, a gellir archwilio copi o hon

yn www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency

neu yn y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyngor Sir Penfro, Adain y Gogledd, Hwlfordd SA61 1TP.

Ailbrisio

Caiff pob gwerth ardrethol ei ailasesu yn ystod ailbrisiad cyffredinol er mwyn sicrhau bod y dreth a delir gan unrhyw un trethdalwr yn adlewyrchu newidiadau dros amser yng ngwerth ei eiddo o'i gymharu ag eraill. Mae hyn yn gymorth i gadw tegwch yn y system ardrethu drwy ddiweddarau prisiadau yn unol â newidiadau yn y farchnad.

Daeth y rhestr ardrethi gyffredol i rym ar 1 Ebrill 2017 ac mae'n seiliedig ar werthoedd fel yr oeddent ar 1 Ebrill 2015.

Yn y flwyddyn y bydd ailbrisiad yn dod i rym, mae'r lluosydd yn cael ei ailosod i gymryd i ystyriaeth y newidiadau cyffredinol i gyfanswm y gwerth ardrethol ac i sicrhau nad yw'r ailbrisio yn codi arian ychwanegol.

Newid gwerth ardrethol

Gall y gwerth ardrethol newid os bydd y swyddog prisio yn credu bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Gall y trethdalwr (a rhai eraill sydd â buddiant yn yr eiddo) hefyd, o dan rai amgylchiadau, gynnig newid yn ei werth. Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y prisiad o fewn 3 mis ar ôl i'r cynnig gael ei wneud, caiff y mater ei gyfeirio gan y swyddog prisio fel apêl gan y cynigydd i Dribiwnlys Prisio Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gynnig newid mewn gwerth ardrethol ar gael o'r Swyddfeydd Prisio.

Lluosydd ardrethu annomestig

Dyma'r gyfradd yn y bunt y lluosir y gwerth ardrethol â hi i roi'r bil treth blynyddol ar gyfer eiddo. Mae'r lluosydd a bennir gan Weinidogion Cymru bob blwyddyn yr un fath ar gyfer Cymru gyfan, ac ar wahân i'r flwyddyn ailbriso, ni all godi o fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

Cynigion ac apeliadau

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau lle y gellir cynnig newid mewn gwerth ardrethol a sut y gellir gwneud cynnig o'r fath ar gael o'r swyddfa brisio leol a ddangosir uchod. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio gan Gyngor Sir Penfro neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn darparu gwasanaeth apeliadau annibynnol am ddim sy'n ymdrin ag apeliadau ynghylch Ardrethi Annomestig a Threth Gyngor. Gellir dod o hyd i'w manylion cyswllt yma
<http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html>

Treth eiddo heb ei feddiannu

Mae'n bosibl y bydd perchnogion eiddo annomestig sydd heb ei feddiannu yn gorfod talu ardrethi eiddo gwag sy'n cael eu codi ar 100 y cant o'r rhwymedigaeth arferol. Mae atebolrwydd yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis neu, yn achos ambell eiddo diwydiannol, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio o ardrethi eiddo gwag.

Cymorth i elusennau ac yn ôl disgrisiwn

Mae gan elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yr hawl i ostyngiad o 80% mewn ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig lle -

(a) yn achos elusennau, y caiff yr eiddo ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddibenion elusennol, neu

(b) yn achos clwb, mae'r clwb wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgrisiwn i ddileu'r cyfan neu ran o'r 20 y cant sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath a gallant hefyd roi cymorth mewn perthynas ag eiddo sy'n cael ei feddiannu gan gyrff penodol nad ydynt wedi cael eu sefydlu nac yn cael eu cynnal er mwyn elw.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chlybiau cysylltwch â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi, Elusennau, Cynilion a Rhyngwladol 2, BX9 1BU,
(y wefan yw <http://www.hmrc.gov.uk>).

Rhyddhad o ardrethi i fusnesau bach

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad o ardrethi i fusnesau bach. Mae'r manylion llawn gan gynnwys y meini prawf cymhwyster, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r gostyngiadau ardrethi perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

Rhyddhad ardrethi trosiannol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad trosiannol i fusnesau bach y mae'r ailbrisiad o hereditamentau annomestig a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017 wedi cael effaith anffafriol arnynt. Mae'r manylion llawn gan gynnwys y meini prawf cymhwyster, yr eithriadau, y gofynion gweithdrefnol a'r gostyngiadau ardrethi perthnasol ar gael gan yr awdurdod bilio.

Cymorth gwladwriaethol

Gallai rhyddhad rhag talu ardrethi annomestig olygu cymorth gwladwriaethol. Mae'n gyfreithlon lle y'i darperir yn unol â Rheoliad y Comisiwn (UE) 1407/2013 ar gymorth de minimis. Mae'r Rheoliad de minimis yn caniatáu i fenter dderbyn hyd at €200,000 o gymorth 'de minimis' dros gyfnod treigl o dair blynedd. Os ydych yn derbyn, neu wedi derbyn, unrhyw gymorth 'de minimis', a roddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu'r ddwy flynedd ariannol flaenorol (o unrhyw ffynhonnell), dylech roi gwybod i'r awdurdod bilio ar unwaith a rhoi manylion y cymorth a dderbyniwyd.

Rhandaliadau Ardrethi Busnes - bob 12 mis

Gellwch ddewis talu ardrethi busnes mewn 12 rhandaliad misol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny, cysylltwch â'r Gwasanaethau Refeniw ar 01437 764551 neu anfonwch e-bost at Revenue.services@pembrokeshire.gov.uk erbyn y 27^{ain} o Fawrth. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn arwain at ledaenu'r rhandaliadau dros y misoedd cyfan sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol.